Adroddiad i'r	**Pwyllgor Craffu Perfformiad**
Dyddiad y cyfarfod	**20 Gorffennaf 2023**
Aelod / Swyddog Arweiniol	**Y Cynghorydd Elen Heaton/Y Cynghorydd Gill German/Nicola Stubbins**
Pennaeth Gwasanaeth	**Ann Lloyd/Rhiain Morrlle**
Awdur yr adroddiad	**Ann Lloyd**
Teitl	**Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2022-2023**

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'n rhaid bob Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru lunio adroddiad blynyddol sy'n crynhoi eu safbwynt ar effeithiolrwydd gwasanaethau gofal cymdeithasol yr awdurdod a gwelliannau i'w blaenoriaethu.

1.2. Mae adroddiad blynyddol drafft ar gyfer 2022-2023 ynghlwm fel Atodiad 1. Diben yr adroddiad yw rhoi darlun teg i'r cyhoedd o wasanaethau yn Sir Ddinbych ac arddangos dealltwriaeth glir o'r cryfderau a'r heriau a wynebir.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. I alluogi'r aelodau i graffu ar yr adroddiad blynyddol drafft cyn iddo gael ei gyflwyno i Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) a'i gyhoeddi ar wefan Cyngor Sir Ddinbych (CSDd).

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod y Pwyllgor yn ystyried a yw'r adroddiad yn rhoi disgrifiad clir o berfformiad yn 2022-2023.

3.2. Bod yr aelodau'n ystyried a yw'r adroddiad yn codi unrhyw faterion / pryderon yn ymwneud â pherfformiad sydd angen craffu arnynt ymhellach.

4. Manylion yr adroddiad

4.1. Yn gyffredinol mae ein perfformiad yn debyg i berfformiad y blynyddoedd diwethaf. Mae hyn yng nghyd-destun problemau parhaus recriwtio a chadw a chymhlethdod cynyddol yr angen a'r galw am wasanaethau.

4.2. Yr ydym yn falch o nodi ein bod yng Ngwasanaethau Plant wedi gweld gostyngiad o 44% yn nifer y plant sy'n derbyn gofal (4 plentyn) sydd wedi newid ysgol un neu fwy o weithiau, nad oedd o ganlyniad i drefniadau pontio. Mae hyn yn sicrhau ein bod yn rhoi cymaint o sefydlogrwydd ag sy'n bosibl i'r plant hyn o ran eu haddysg.

4.3. Yn ogystal yng Ngwasanaethau Plant gwelwyd bod nifer y rhai sy'n gadael gofal sydd wedi cwblhau o leiaf 3 mis o gyflogaeth, addysg neu hyfforddiant wedi dyblu o 5 yn 2021-2022 i 10 yn 2022-2023, ac mae 7 ohonynt wedi parhau i fod mewn cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant am 13-24 mis wedyn. Gwelwyd gostyngiad bach yn y nifer a oedd yn profi digartrefedd – 9 yn 2021-2022 i 7 yn 2022-2023. Mae'r partneriaethau'r ydym wedi eu datblygu i ddarparu cefnogaeth barhaus i'r bobl ifanc hyn yn dod â'r canlyniadau cadarnhaol yr ydym yn eu dymuno.

4.4. Yn ystod y llynedd mae Tîm Ar Ymyl Gofal y Gwasanaethau Plant wedi cyflawni canlyniadau da, gan weithio gyda'r teulu cyfan pan ystyrir bod plant 'ar ymyl gofal'. Mae'r tîm yn darparu cefnogaeth ddwys i deuluoedd diamddiffyn sydd â phroblemau cymhleth lluosog ac yn galluogi i amgylchiadau'r plentyn / plant wella. Mae'r tîm hefyd yn rhoi sgiliau i aelodau'r teulu fel y gallant gynnal eu gwelliannau eu hunain.

4.5. Mae llawer o'r gwasanaethau yng Ngwasanaethau Oedolion wedi dychwelyd i ryw fath o normalrwydd yn dilyn pandemig Covid 19. Mae'r ddau gartref gofal wedi cynyddu'r nifer o weithgareddau sy'n digwydd, ac mae aelodau o'r gymuned yn gallu ymweld unwaith eto. Ailagorwyd ein gwasanaethau cyfleoedd gwaith a dydd, a chafwyd buddsoddiad sylweddol ym Mhopty a Meifod. Yr oeddem hefyd yn falch o weld Tai Gofal Ychwanegol Awel y Dyffryn yn Ninbych yn cael eu cwblhau, a bron pob un o'r 66 o'r rhandai'n cael eu dyrannu. Yr

ydym ’rŵan yn aros i Gam 2 Llys Awelon yn Rhuthun gael ei gwblhau – disgwylir hyn yng ngwanwyn 2024.

4.6. Mae Tîm Ar Ymyl Gofal y gwasanaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion wedi gwneud camau breision o ran cynnig gwasanaeth gwirfoddoli i gefnogi llawer o bobl hŷn yn Sir Ddinbych, gan ddarparu cymorth a oedd wirioneddol ei angen o ganlyniad i ddiffyg darpariaeth gofal cartref. Bu twf sylweddol yn nifer y Micro-ddarparwyr sydd bellach yn darparu gofal a chymorth mewn cymunedau lleol. Mae hyn yn ein cynorthwyo i fodloni’r galw, ac mae hefyd yn creu menter ledled y sir.

4.7. Ni chafwyd llawer o gyfle i ddechrau prosiectau newydd, gan mai atgyfnerthu arferion yn dilyn pandemig Covid 19 sydd wedi bod yn bwysig y flwyddyn ddiwethaf hon, ynghyd ag ymdopi â chymhlethdod cynyddol y galw a phroblemau recriwtio a chadw.

4.8. Fodd bynnag, wrth i ni symud ymlaen i’r flwyddyn 2023-2024, byddwn yn canolbwyntio ar agenda Ailgydbwyso Gofal Cymdeithasol Llywodraeth Cymru a sut allwn gyflawni hynny yma yn Sir Ddinbych. Yng Ngwasanaethau Oedolion a Phlant byddwn yn gweithio gydag ystod o fudd-ddeiliaid i ddatblygu datrysiadau i fynd i’r afael â’r problemau parhaus o ran recriwtio a chadw o fewn Gofal Cymdeithasol.

4.9. Canolbwyntir ar ddatblygu darpariaeth egwyliau byrion a seibiant mewn argyfwng o fewn y sir ar gyfer plant sydd ag anableddau cymhleth, a byddwn yn parhau i annog y defnydd o daliadau uniongyrchol yng Ngwasanaethau Oedolion a Phlant i gynorthwyo unigolion a theuluoedd i fod â dewis a rheolaeth dros eu hanghenion gofal a chymorth.

5. Sut mae’r penderfyniad yn cyfrannu at Gynllun Corfforaethol 2022 i 2027: Y Sir Ddinbych a Garem?

5.1. Yn ystod blwyddyn ariannol 2022-2023 cyfrannodd Gwasanaethau Oedolion a Phlant tuag at themâu canlynol y Cynllun Corfforaethol:

- Tai o ansawdd yn Sir Ddinbych sydd yn bodloni anghenion pobl
- Sir Ddinbych ffyniannus
- Sir Ddinbych iachach, hapusach a gofalgar

- Sir Ddinbych sy'n dysgu a thyfu
- Sir Ddinbych teg, diogel a mwy cyfartal

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Nid yw datblygu a chyhoeddi'r adroddiadau blynyddol yn costio unrhyw beth ac eithrio amser swyddog, ac nid yw'n effeithio ar wasanaethau eraill. Bydd cynlluniau ar gyfer y dyfodol a'r camau gweithredu a nodir yn yr adroddiad ar gyfer Gwasanaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion a Digartrefedd a Gwasanaethau Addysg a Phlant yn cael eu cyflawni drwy gyllidebau craidd, neu drwy gyllid partneriaeth fel y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol, ond mae pwysau ariannol sylweddol yn parhau i fod o fewn Gofal Cymdeithasol i Oedolion a Gwasanaethau Plant.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1. Nid oes angen Asesiad o Effaith ar Les ar gyfer yr adroddiad blynyddol gan ei fod yn darparu gwerthusiad ôl-weithredol o berfformiad ac nid yw cyhoeddi'r adroddiad yn cael unrhyw effaith bosibl ar genedlaethau'r dyfodol. Fodd bynnag, cynhelir Asesiadau o Effaith ar Les mewn perthynas ag unrhyw gynlluniau'r dyfodol neu ddatblygiad gwasanaethau y soniwyd amdanynt yn yr adroddiadau blynyddol hyn, pan fo angen.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Mae adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr ynglŷn â'n gwasanaethau yn ffurfio rhan o'n system sicrwydd ansawdd presennol ac o'r herwydd wedi cyfrannu'n sylweddol at ddatblygiad yr adroddiad blynyddol.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Mae'n rhaid i oblygiadau cost unrhyw faterion sy'n dod i'r amlwg yn yr adroddiad blynyddol gael eu hystyried yng nghyd-destun sefyllfa gyllidebol ehangach a Chynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor. Amlinellir yr heriau a'r pwysau ariannol sydd ar y gwasanaethau a'r Cyngor yn glir yn Adran 5 (b) yr Adroddiad Blynyddol.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Mae cofrestr risg manwl ar gyfer y Gwasanaethau Cymorth Cymunedol a'r Gwasanaethau Addysg a Phlant. Gan fod yr adroddiad hwn am y Gwasanaethau Cymdeithasol yn Sir Ddinbych, mae unrhyw risgiau sy'n gysylltiedig â'r materion a gwmpesir gan yr adroddiad hwn (ac unrhyw gamau i'w lliniaru a'u rheoli) yn cael eu dal yn y cofrestri risg gwasanaeth.

11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. Mae Canllawiau Statudol (gan gynnwys y gofyniad i gyhoeddi adroddiad blynyddol) yn cael eu cyhoeddi yn y Cod Ymarfer ar Rôl Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol o dan Ran 8 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

11.2. Mae Adran 21 Deddf Llywodraeth Leol 2000 ac Adran 7.4.2(b) yn nodi pwerau Craffu mewn perthynas â monitro perfformiad a chyflawni amcanion polisi.